

CABINET CYNGOR GWYNEDD



Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

Dyddiad y cyfarfod:	22 Tachwedd 2022
Aelod Cabinet:	Y Cynghorydd Dilwyn Morgan
Swyddog Cyswllt:	Aled Davies
Teitl yr Eitem:	Adroddiad Perfformiad yr Aelod Cabinet dros Oedolion, lechyd a Llesiant

1 Y PENDERFYNIAD A GEISIR

Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad.

2 Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD

Er mwyn sicrhau rheoli perfformiad yn effeithiol.

3 CYFLWYNIAD

3.1 Dyma adroddiad i ddiweddarau fy nghyd aelodau ar yr hyn sydd wedi digwydd yn y meysydd yr wyf yn gyfrifol amdany'n nhw. Bydd hyn yn cynnwys amlinellu'r hyn sydd wedi digwydd yn erbyn addewidion Cynllun Cyngor Gwynedd 2018-23; lle mae'r mesurau perfformiad arni; a'r diweddarad o ran sefyllfa ariannol yr Adran Oedolion, lechyd a Llesiant. Mae'r adroddiad hwn wedi'i ddrafftio yn seiliedig ar drafodaethau mewn cyfarfod rhyngof i, y Cyfarwyddwr Corfforaethol a chynrychiolaeth o'r adran.

3.2 Mae'r adran yn parhau mewn cyfnod heriol sydd ddim i'w weld yn ysgafnau. Mae staff wedi bod o dan bwysau sylweddol ers dechrau cyfnod y pandemig ac am nifer o resymau, mae'n anoddach nag erioed i recriwtio i'r maes sy'n rhoi pwysau sylweddol pellach arnynt. Mae'r adran hefyd mewn cyfnod trosiannol, gyda llawer o waith yn digwydd i geisio sicrhau bod ein gwasanaethau ni'n addas i bwrpas ar gyfer anghenion ein defnyddwyr gwasanaeth rŵan ac i'r dyfodol. Rwy'n falch iawn felly o'r modd y mae'r adran wedi bod yn llwyddo i ymdopi â'r pwysau yma ac mae'r perfformiad yn adlewyrchu hynny ar y cyfan. Rwy'n falch hefyd o weld bod cynnydd dal i ddigwydd er gwaetha'r anawsterau capasiti yn yr adran, a does dim dwywaith mai ymroddiad y staff i'r maes ac i'r unigolion y maen nhw'n ei gefnogi sydd i'w ddiolch am hynny.

3.3 Mae'r gwaith o ddatblygu mesurau yn barhaus yn yr adran hon ond rwyf wedi gweld y cynnydd sydd wedi'i wneud hyd yma ac wedi fy modloni fod y gwaith yn digwydd fel mater o flaenoriaeth i'r adran.

3.4 Mae nifer o'r materion isod wedi eu hamlygu fel rhan o archwiliad diweddar gan Arolygaeth Gofal Cymru, a byddaf yn adrodd ymhellach ar eu hadroddiad nhw i'r Pwyllgor Craffu Gofal.

4 PROSIECTAU CYNLLUN CYNGOR GWYNEDD 2018-23

4.1 Mae gan yr adran gyfrifoldeb dros nifer fawr o ffrydiau gwaith sydd o flaenoriaeth i'r Cyngor. Mae'r rhain wedi'u rhannu i ddwy raglen waith yng Nghynllun y Cyngor – *Darpariaeth Gofal Addas a Chynaliadwy i'r Dyfodol ac Ailddylunio ein Gwasanaethau Gofal*.

4.2 Fodd bynnag, un o brif heriau a risg sylweddol i allu'r adran i ddarparu ei wasanaethau craidd yw'r anawsterau presennol i **recriwtio a chadw staff yn y maes**. Mae hyn yn derbyn sylw ar lefel corfforaethol fel rhan o brosiect yr Adran Cefnogaeth Gorfforaethol, *Cynllunio'r Gweithlu*, ond dyma ddiweddariad byr ar waith yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant yn y maes ers i mi adrodd ddiwethaf:

- Wedi bod yn ailedrych ar ffurflenni cais a chreu tudalen swyddi symlach, mwy deniadol.
- Yn cynnal digwyddiadau recriwtio lleol – er yn llwyddiannus ym Maesgeirchen, ni fu mor llwyddiannus yn Ffestiniog gan na lwyddwyd i benodi o gwbl. Mae hyn wedi cyfrannu at ein anallu i agor uned dementia yn ein cartref yn Llan Ffestiniog.
- Yn cynnal cyfweiliadau gadael i ddeall pam fod unigolion yn gadael y maes ac i le maen nhw'n mynd. Bydd yr wybodaeth yn bwydo mewn i'r strategaeth recriwtio i'r dyfodol.
- Cydweithio ag ysgolion a cholegau i geisio denu unigolion i'r sector yn fuan, ac i drafod cydweithio drwy gynnig gwaith gofal i staff sydd ond yn gweithio 39 wythnos y flwyddyn e.e. cymorthyddion dysgu.
- Cynlluniau Hyfforddeion Gwaith Cymdeithasol a Therapi Galwedigaethol yn dal i fynd rhagddynt.

4.3 Darpariaeth Gofal Addas a Chynaliadwy i'r Dyfodol

Mae gwaith ar y rhaglen hon yn mynd rhagddo'n dda ond mae heriau sylweddol yn parhau yn bennaf o ganlyniad i heriau recriwtio. Dyma geisio crynhoi lle'r ydan ni arni fesul ffrwd gwaith:

- **Ceisio deall 'gwir gost gofal'** – yn cydweithio i baratoi awgrym o ffi rhanbarthol preswyl a nyrsio ar gyfer 2023/24. Bydd hyn o gymorth i ni wrth benderfynu ar ein ffioedd ni ar gyfer y flwyddyn honno.
- **Safle Penrhos** - gwaith yn parhau. Bwriad i gyflwyno achos busnes i'r Cabinet ym mis Rhagfyr.
- **Cynyddu gwelyau dementia** - gwaith yn parhau ar ein cartrefi'n y Bermo a Bangor. Yn cael anhawster i agor unedau parod oherwydd problemau staffio.
- **Gwneud defnydd o'r addasiadau sydd wedi'u gwneud i'n cartref yn Nolgellau ar gyfer unigolion ag anghenion corfforol dwys** – wedi'i gyflawni ac yn gweld bod yr addasiadau yn cefnogi pobl i barhau i fyw yn y cartref am hirach.
- **Gwasanaethau Cefnogol** – mwy o wasanaethau dydd ac ysbaid wedi aildechrau. Hefyd yn ystyried opsiynau posib ar gyfer darpariaeth gofal dydd i'r dyfodol yn Ffestiniog a Chricieth.
- **Tai Gofal Ychwanegol** - mewn trafodaethau gyda'r Adran Tai ac Eiddo er mwyn datblygu yn Nolgellau a Chaernarfon. Daeth Caernarfon i'r amlwg mewn darn o waith diweddar fel blaenoriaeth sirol o safbwynt y galw am y math yma o ddarpariaeth.
- **Cryfhau ein gwasanaeth sicrwydd ansawdd** – bid yn aflwyddiannus a chapasiti yn parhau'n rhy isel i gyrraedd mwyafrif y darparwyr. Bwriad i gyflwyno bid eto eleni.

4.4 Ail-ddylunio ein Gwasanaethau Gofal


Mae'r gwaith ar y rhaglen yma hefyd yn mynd rhagddo'n dda yn gyffredinol er bod ein prif heriau'n parhau. Dyma geisio crynhoi lle ydan ni arni fesul ffrwd gwaith:

- **Arfogi'r Timau Adnoddau Cymunedol i gyflawni'r hyn sy'n bwysig i oedolion Gwynedd** –gwaith yn parhau gyda ffocws ar hyfforddiant a dileu rhwystrau.
- **Model newydd gofal cartref** – proses drosglwyddo yn mynd rhagddo. Bwrdd Rhaglen wedi'i sefydlu i weithredu'r amrywiol ffrydiau gwaith.
- **Cryfhau'r gwasanaeth Therapi Galwedigaethol** – rhwystrau recriwtio yn parhau er gwaethaf gwneud penodiadau i swyddi a chyfleon hyfforddai. Bwriad i benodi hyfforddai arall yn fewnol i ddechrau cwrs gradd rhan amser Therapi Galwedigaethol yn y flwyddyn newydd gan gydweithio â Phrifysgol Glyndŵr.
- **Ychwanegu at rwydwaith o hybiau cymunedol i unigolion ag anableddau dysgu** – bwriadu cyflwyno cais cynllunio llawn ar gyfer gwaith adeiladu yng Nghanolfan Dolfeurig Dolgellau ar 30/11/22. Yn defnyddio mwy ar Hwb Arfon yng Nghanolfan Byw'n Iach Arfon i ddatblygu sgiliau, sesiynau grŵp ayb.
- **Diwallu anghenion llesiant unigolion gydag Anableddau Dysgu yng Nghaernarfon** – gwaith yn parhau i ystyried yr opsiynau, ac yn edrych ar ddatblygu gofod cymunedol ar safle Frondeg i bawb gan gynnwys Oedolion Hŷn.
- **Profi'r budd o hybiau llesiant i gefnogi unigolion hyd at 25 oed yn ymarferol ac emosiynol yng Nghaernarfon a Ffestiniog** – wedi gweld cynnydd yn nefnydd yr hybiau yn sgil y crisis costau byw. Y Bwrdd Iechyd yn bwriadu datblygu mwy o hybiau ar-lein cyn y Nadolig a bwriad i ddatblygu hwb yn benodol i unigolion yn y byd amaeth. Dylid nodi mai'r Bwrdd Iechyd sydd yn arwain ar y gwaith yma ac mai ymylol yw ein cyfraniad.
- **Cynyddu opsiynau llety addas i unigolion ag Anableddau Dysgu** – gwaith yn parhau i gynyddu eiddo addas yn Arfon a Llŷn. Bwriad i ganfod opsiwn i ddatblygu ym Meirionnydd. Gwaith ataliol yn digwydd i drafod dyheadau unigolion sy'n agosáu at oed trosglwyddo i wasanaethau oedolion.
- **Gwerthuso ein darpariaeth iechyd meddwl** – wedi derbyn adroddiad ar opsiynau posib a dechrau trafodaethau i gynllunio'r gwaith.
- **Cydweithio â'n partneriaid i sicrhau cysondeb o ran mynediad i wasanaethau iechyd meddwl addas ar draws y sir** – wedi adolygu ein cytundebau efo'r canolfannau adnoddau iechyd meddwl i gyfarch llesiant yn hytrach na chanolbwyntio ar iechyd meddwl. Y canolfannau'n darparu cefnogaeth rhithiol ac mewn lleoliadau lloeren ar draws y sir.

5 PERFFORMIAD

- 5.1 Prif fesurydd y **Gwasanaeth Pobl Hŷn, Anableddau Corff ac Anhwylderau Synhwyraidd** ydi 'a wnaethom gyflawni'r hyn sy'n bwysig' i unigolion. Rydym wedi gweld cwmp yn y ffigurau yma ers adrodd ym Mehefin gyda 77% yn adrodd ein bod wedi cyflawni'r hyn sy'n bwysig iddynt yn llawn yn y cyfnod ers Ebrill 2022 o'i gymharu â 79% rhwng Ionawr a Mawrth 2022. Mae'r nifer o adolygiadau sydd wedi eu gwneud yn parhau'n is nag y byddem yn hoffi o ganlyniad i ddiffyg capasiti. Ymddengys bod y rhesymau dros fod wedi methu cyflawni'r hyn sy'n bwysig i unigolion yn faterion sydd allan o'n rheolaeth ni mewn rhai achosion, gan gynnwys unigolion yn teimlo'n rhwystredig na allen nhw wneud mwy dros eu hunain a diffyg lle parhaol mewn cartref lle'r oedd unigolyn wedi mynd yno dros dro.
- 5.2 Mae'r un mesurydd gan ein **Gwasanaeth Anableddau Dysgu a'n Gwasanaeth Gofalwyr**. Er bod y perfformiad yn ymddangos yn 100% ar gyfer y ddau wasanaeth, mae'r nifer o adolygiadau yn bryderus o isel ac mae risg nad yw'r mesuryddion o'r herwydd yn wir adlewyrchiad o'r sefyllfa a'r heriau. Rwyf wedi gofyn i'r adran roi sylw i'r mesurydd yma yn gyffredinol er mwyn sicrhau ei fod yn cyfleu darlun dibynadwy.

5.3 Ers i mi adrodd y tro diwethaf, mae'r **rhestrau aros am ofal cartref** wedi gwaethygu eto gyda'r nifer o oriau gofal cartref na ellir ei ddiwallu wedi cynyddu o 11.2% i




17.1%. Mae'r cynnydd cyson ers Mehefin yn bennaf o ganlyniad i nifer o ddarparwyr yn rhoi pecynnau gofal yn ôl ar fyr rybudd o ganlyniad i gynnydd mewn galw, materion staffio neu'r darparwr ddim yn ennill y gytundeb gofal cartref yn yr ardal. Mae wedi sefydlogi rhywfaint ers trosglwyddo pecynnau i ddarparwyr newydd ond rydym hefyd yn gweld diffyg capasiti ganddynt i gwrdd â'r galw yn yr ardaloedd ar hyn o bryd.

5.4 Yr effaith o hynny wedyn ar ein **gwasanaeth gofal cartref mewnol** ydi nad yw'n bosib i ni dynnu'n ôl yn llawn o'r ardaloedd lle na fyddwn yn darparu gwasanaeth i'r dyfodol. Rwyf wedi gofyn i'r adran ystyried sut mae mynd i'r afael â hyn.


5.5 Rydym wedi gweld nifer o broblemau gyda'r mesurydd hwn yn y gorffennol, yn bennaf oherwydd nad yw'r rhestrau bob amser yn cael eu diweddarau'n briodol. Mae tîm Bangor ar hyn o bryd yn treialu trefn newydd o adrodd ar y rhestr aros yn ddyddiol fesul is ardal i sicrhau cywirdeb – ac mae'r adran yn gobeithio ei gyflwyno yng ngweddill yr ardaloedd hefyd.

5.6 Mae nifer y gwelyau sydd ar gael i'w defnyddio yn ein **cartrefi gofal mewnol** yn parhau'n is nag yr hoffem iddo fod. Mae rhai materion penodol sy'n cyfrannu at hyn megis diffyg gallu agor unedau dementia a chynnydd yn anghenion gofal ein trigolion. Wrth ystyried yr argyfwng recriwtio a chadw staff difrifol sydd eisoes yn bodoli ac sy'n ein rhwystro rhag gallu staffio ein cartrefi'n ddigonol, mae'r materion hyn yn rhoi pwysau ychwanegol eto ar ein capasiti staffio.



5.7 Yn fy adroddiad diwethaf, nodais y rhwystredigaeth gyda diffyg mesuryddion ar gyfer y **Gwasanaeth Iechyd Meddwl**. Mae'r problemau'n ymwneud â diffyg defnydd o systemau ffeilio electroneg gan y gwasanaeth integredig yn parhau, ond erbyn hyn mae'r gwasanaeth wedi gallu adrodd ar y cynnydd mewn cyfeiriadau i'r gwasanaeth ers dechrau 2020 – gyda 352 cyfeiriad y mis ar gyfartaledd yn 2020 a 428 cyfeiriad y mis ar gyfartaledd hyd yma eleni. Dylid nodi hefyd fod achosion sydd yn cyrraedd y tîm bellach yn fwy cymhleth sydd yn cynyddu'r pwysau ar y tîm ymhellach. Mae na bellach 116 o unigolion ar y rhestr aros am wasanaeth iechyd meddwl eilradd hefyd. Rwyf wedi gofyn i'r adran barhau i roi sylw i ddatblygu'r mesuryddion ar gyfer y gwasanaeth yma.

5.8 Rydym wedi gweld gwellhad unwaith eto gyda'r **canran o ymholiadau diogelu** oedd wedi eu cwblhau o fewn 7 diwrnod yn 90.3% ar gyfartaledd dros y 7 mis diwethaf ers Ebrill 2022. Mae hyn yn cymharu â 88% ac 81% ar gyfer y cyfnodau blaenorol ac rwy'n hynod o falch o'r perfformiad hwn. Mae'r nifer o achosion lle mae'r risg wedi'i reoli hefyd yn ymddangos yn uwch ar gyfer y chwarter diwethaf (97% ar gyfartaledd dros 4 mis ers Gorffennaf 2022). Cyflwynwyd ffurflen adrodd newydd ym mis Ebrill sydd llawer mwy eglur ac felly mae gwell cysondeb bellach.



5.9 Mae'r tîm **sicrwydd ansawdd** yn bodoli i sicrhau bod y gofal sy'n cael ei gomisiynu yn ddiogel ac o ansawdd, ac mae gen i bryderon gwirioneddol nad yw capasiti'r tîm yn eu caniatáu i gyrraedd y rhan fwyaf o ddarparwyr gofal i gynnal ymweliadau monitro. Oherwydd diffyg capasiti yn y tîm a'r adnodd sylweddol fyddai ei angen i fedru ymweld â sampl digonol o achosion ar draws nifer o leoliadau amrywiol, nid yw'r tîm wedi gallu cychwyn eto ar y gwaith o fonitro'r naw darparwr gofal cartref yn y sir. Mae bidiau am arian i

gynyddu capasiti'r tîm yma wedi eu gwrthod yn y blynyddoedd diwethaf, ond rwyf wedi cael cadarnhad y bydd bid yn cael ei gyflwyno eto eleni er mwyn ceisio mynd i'r afael â'r mater yma.

6 SEFYLLFA ARIANNOL

6.1 Ar sail adolygiad cyllidol diwedd Awst 2022, mae'r Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant yn rhagweld gorwariant o £1.9 miliwn yn erbyn y gyllideb erbyn diwedd y flwyddyn ariannol 2022/23.

6.2 Mae tueddiad i adolygiad cyllidol cyntaf y flwyddyn ariannol adlewyrchu sefyllfa heriol gan fod ansicrwydd am amrywiol grantiau sy'n dod yn hysbys i'r Adran yn ystod ail hanner y flwyddyn ariannol fel arfer. Dydi hyn ddim gwahanol ar gyfer y flwyddyn 2022/23. Mae'r adran yn ymwybodol fod perfformiad ariannol calonogol 2021/22 wedi bod yn ddibynnol ar grantiau 'un tro' gan Lywodraeth Cymru, a bod y rhagolygon ar gyfer 2022/23 a'r blynyddoedd i ddod yn parhau yn heriol dros ben.

6.3 Bu i Gabinet 18 Ionawr 2022 gyntuno i ohirio rhai o gynlluniau arbedion yr adran i 2023/24 er mwyn rhoi cyfle i gyflawni. Rhoddodd hyn fwy o amser i sicrhau bod modelau gweithredu newydd yn cael eu gwreiddio o fewn yr adran. Mae'r ffigur gorwariant ar gyfer 2022/23 yn cynnwys oddeutu £1m o gynlluniau arbedion sydd heb allu cael eu gwreiddio hyd yma, ac yn annhebygol o fod wedi eu gwreiddio yn ystod y flwyddyn ariannol. Mae cyfarch yr arbedion yma, tra'n parhau i weld cynnydd mwy na'r disgwyl yn y galw am wasanaethau, yn mynd i fod yn heriol o ystyried y gwaith sylweddol sy'n parhau i drawsnewid gwasanaethau a newid y ffordd o weithio. I sicrhau fod gennym yr adnodd hwyluso trawsnewid sydd ei angen i gyflawni hyn, mae ymdrech i ddefnyddio ffynonellau ariannu amrywiol, yn benodol y Grant RIF (Cronfa Integreiddio Rhanbarthol) gan Lywodraeth Cymru.

6.4 Mae'r adran wedi cyflwyno bidiau ariannol er mwyn cyfarch cyllidebau sydd eu hangen er mwyn parhau gyda gwasanaethau statudol, a/neu newid mewn deddfwriaeth, ac mae gwaith craffu cychwynnol wedi digwydd rhyngof i a'r adran. Yn yr hinsawdd sydd ohoni, bydd rhaid i ni hefyd ailedrych ar ein dulliau o gyflawni rhai gwasanaethau.

7 UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

7.1 **Barn y Swyddogion Statudol:**

i. Y Swyddog Monitro:

Mae'r Gwasanaetha Cyfreithiol yn cyd weithio gyda'r Adran ar sawl elfen o'r hyn a adroddir arno . Dim sylwadau pellach i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb

ii. Y Pennaeth Cyllid:

Rwyf yn fodlon fod yr adroddiad yn adlewyrchiad teg o sefyllfa ariannol yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant